## Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
## Department for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref TO/KS/03062/20

Rhun Ap Iorwerth AS
rhun.apiorwerth@assembly.wales

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Rhun Ap Iorwerth AS,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 5 Mehefin at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, ynglŷn â'r llinell rhwng Gaerwen ac Amlwch. Yn anffodus, nid yw'r Gweinidog yn gallu ymateb yn berson oherwydd y nifer fawr o ymholiadau mae'n eu derbyn ar yr adeg hon.

Yn dilyn llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Mehefin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, rydych yn gofyn am y diweddaraf ar ein cynnig i ddatblygu ymhellach gynlluniau i ailagor y rheilffordd rhwng Gaerwen ac Amlwch. Amgaeaf ein cyflwyniad ffurfiol i Lywodraeth y DU yn ceisio cyllid o dan ei Chronfa Syniadau ar gyfer astudiaeth i'r gwaith hwn, a fyddai hefyd yn ystyried y potensial ar gyfer gweithrediadau ochr yn ochr â rheilffordd dreftadaeth a darpariaeth ar gyfer teithio llesol ar hyd y llwybr. Bydd briff yr astudiaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol ystyried barn grwpiau lleol â diddordeb, a hoffem glywed eich syniadau chi yn fawr iawn – gallech chi hyd yn oed hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth neu ei gydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, am eich cefnogaeth i'r cynlluniau.

Y gweithrediadau rheilffyrdd confensiynol fyddai gwasanaethau rheolaidd rhwng Amlwch, Llangefni a Bangor, gyda'r potensial i estyn gwasanaethau ar hyd yr arfordir i Landudno. Rydym yn credu y dylai'r astudiaeth ddangos bod achos strategol cryf dros ailagor a chyflwyno'r gwasanaethau hyn, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi a llesiant Ynys Môn.

Mae seilwaith y rheilffyrdd yn gyfrifoldeb nad yw wedi cael ei ddatganoli, a byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i fuddsoddi mewn ailagor y gwasanaethau hyn pan brofir yr achos.

Amgaeaf hefyd gopi o lythyr y Gweinidog dyddiedig 2 Mawrth at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth pan lansiodd Llywodraeth y DU ei rhaglen gyllid Restoring Your Railway, y cyfeiriwyd ati yn y llythyr dyddiedig 4 Mehefin. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein cynigion ehangach mewn perthynas â buddsoddiadau gan Lywodraeth y DU yn y rheilffyrdd ledled Cymru, rheilffyrdd sydd, yn ein barn ni, wedi dioddef yn y gorffennol o ddiffyg buddsoddi.

Yn gywir

**Dewi Rowlands**
Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
ETGovernmentBusiness@llyw.cymru
ETGovernmentBusiness@gov.wales